

"Faint o notis sydd rhaid i mi ei roi?"

*"Rhaid i bob **athro** roi neu gael rhybudd o 2 fis (a 3 mis yn nhymor yr haf) cyn terfynu cytundeb ar ddiwedd tymor ysgol.*

*Rhaid i bob **pennaeth** roi neu gael rhybudd o 3 mis (a 4 mis yn nhymor yr haf) cyn terfynu cytundeb ar ddiwedd tymor."*

- I athro sydd am ymddiswyddo neu sydd yn cael ei diswyddo ar ddiwedd yr haf, mae'n rhaid rhoi neu gael rhybudd cyn diwedd Mai. Mae rhaid i'r rhybudd fod yn ysgrifenedig.
- Os am orffen 31 Rhagfyr, rhaid wrth rybudd ysgrifenedig cyn diwedd Hydref, a chyn diwedd Ionawr, gan amlaf, os ydych chi'n gorffen ar ddiwedd tymor y Pasg, (o leiaf 2 fis llawn cyn diwedd y tymor).

Anaml iawn y caniateir i athro derfynu ei gytundeb ar amser gwahanol i ddiwedd tymor, e.e. hanner tymor. Mewn sefyllfa o ddiswyddo oherwydd gormodedd, disgwylir y terfynir cytundeb yr athro ar ddiwedd tymor yr haf. Fodd bynnag, **mae gan y Llywodraethwyr yr hawl i derfynu'r cytundeb ar ddiwedd tymor y Pasg neu ar ddiwedd Rhagfyr** ond iddynt roi'r rhybudd statudol o ddau fis.

Weithiau bydd athro am derfynu ei gytundeb o fewn y rhybudd statudol, er enghraifft, wedi cael cynnig swydd mewn ysgol arall i gychwyn ym mis Medi. Bydd yn rhy hwyr i roi tri mis o rybudd i orffen 31 Awst, er bod y swydd newydd yn dechrau 1 Medi. **Mae hawl gan y Llywodraethwyr i fynnu bod yr athro yn aros yn ei swydd bresennol tan 31 Rhagfyr.** Ym mhrofiad UCAC, mae rhai Penaethiaid a Llywodraethwyr yn fodlon dod i gytundeb a rhyddhau'r athro'n gynt os oes modd gwneud trefniadau cyflenwi.

Beth os nad yw'r ysgol lle mae'r swydd newydd yn fodlon aros tan ddiwedd Ionawr i'r athro gychwyn ar ei swydd?

Os **cafodd y swydd ei hysbysebu ar gyfer cychwyn 1 Medi, mae hawl ganddynt i dynnu eu cynnig yn ôl os nad yw'r athro yn medru cychwyn ym Medi.** Ym marn UCAC, dylai'r ysgol gadw'r swydd ar agor i'r athro tan 1 Ionawr. Wedi'r cwbl, y nhw oedd wedi amseru'r cyfweiliadau a'r apwyntiad, ac fe ddylen nhw fod yn ymwybodol o gyfyngiadau cyfreithiol cytundebau athrawon.